**Ardal TB Isel – Y camau nesaf**

**Y mesurau ddaw i rym ar 1 Tachwedd 2021**

Am wybodaeth gefndir am y sefyllfa yn yr Ardal TB Isel a disgrifiad o'r holl fesurau, cliciwch ar https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-09/ardal-tb-isel-cwestiynau-cyffredin.pdf

## Pa fesurau ddaw i rym ar 1 Tachwedd 2021?

Daw cyfres o fesurau newydd i rym ar **1 Tachwedd.** Mae angen ichi wybod am y tri sy'n effeithio ar unedau gofodol CL1, CL2 a GW1. **PWYSIG:** Dim ond **dau** o'r mesurau hyn sy'n ymwneud â'r clwstwr ym **Mhennal**, ardal fach i'r gorllewin o Fachynlleth (gweler y map ar waelod y dudalen):

- **Bydd y tair uned ofodol CL1, CL2 a GW1 sydd yn Sir Ddinbych/Dyffryn Conwy, ond nid clwstwr Pennal, yn cael eu hailgategoreiddio a'u rhoi dros dro yn Ardal TB Ganolradd y Gogledd (ITBAN).** Un o ganlyniadau pwysig hynny yw y bydd gofyn cynnal Profion Cyn Symud (PrMT) cyn symud gwartheg o'r daliad ac na fydd angen cynnal Profion ar ôl Symud (PoMT) ar ôl symud gwartheg i ddaliad o Ardaloedd TB uwch. Cofiwch, **bydd dal gofyn cynnal profion ar ôl symud ar wartheg gafodd eu symud i'ch daliad cyn 1 Tachwedd** o fewn 60-120 diwrnod ar ôl y symudiad, os daethon nhw o ardal TB uwch. Cliciwch ar ddolen GOV.UK i gael rhagor o wybodaeth https://www.gov.uk/government/publications/pre-movement-and-post-movement-tb-testing-of-cattle-in-great-britain

- Bydd angen cynnal profion ychwanegol ar fuchesi sy'n ffinio â daliadau lle mae'r Statws Heb TB Swyddogol wedi'i Ddileu (OTFW). Mae hynny'n golygu os yw'ch buches chi yn ffinio â buches sydd wedi colli ei Statws Heb TB Swyddogol, bydd rhaid i'ch buches chi ddilyn y drefn ganlynol:

  **Prawf Cyffiniol (prawf CON), Prawf Cyffiniol 6 mis (prawf CON6), prawf CON6 arall a Phrawf Cyffiniol 12 mis (prawf CON12)**

  Mae hyn yn golygu prawf cyffiniol yn unol â'r arfer (CON), prawf cyffiniol ar ôl 6 mis (CON6), prawf cyffiniol ar ôl 6 mis arall (CON6) a phrawf cyffiniol terfynol 12 mis wedi hynny (CON12).

- Ymweliadau "Cadw TB Allan" am ddim o dan y rhaglen Cymorth TB â buchesi sy'n ffinio â buches sydd wedi dal TB ond sydd wedi dangos eu bod yn glir yn y profion uchod. Y Llywodraeth sy'n talu am yr ymweliadau hyn gan filfeddyg swyddogol (eich milfeddyg preifat chi) i drafod sut y gallech wella'ch bioddiogelwch a beth arall y gallech ei wneud i gadw TB rhag heintio'ch gwartheg. Gallwch ddewis eich milfeddyg eich hun cyn belled â'i fod yn filfeddyg swyddogol.

**Sut bydda i'n gwybod a yw'r mesurau hyn yn effeithio ar fy fferm i?**

Os yw'ch fferm yn un o'r ardaloedd yr effeithir arnyn nhw, byddwn yn anfon llythyr atoch ddechrau mis Hydref i esbonio'r newidiadau dros dro.

Hefyd, edrychwch ar yr eitem nesaf ar Map Data Cymru.

**Beth yw Map Data Cymru a sut galla i ei ddefnyddio er fy lles?**

Rydyn ni newydd gyhoeddi swyddogaethau TB newydd ar Map Data Cymru.  Mae Map Rhanbartholi TB Cymru yn dangos plwyfi, unedau gofodol ac ardaloedd TB ym mhob rhan o Gymru.

Bydd hyn yn helpu ffermwyr i adnabod eu hunedau gofodol wrth chwilio am wybodaeth leol, yn ogystal ag wrth geisio adnabod unedau gofodol eu cymdogion neu ardaloedd sydd â TB.

Ein hamcan yw defnyddio Data Map Cymru i wella'r wybodaeth sydd ar gael i'r diwydiant.  Y bwriad yw ychwanegu swyddogaeth chwilio am CPH fel yr oedd ar 'Lle' am ychydig.


I gael help ar sut i ddewis a gweld haenau gwahanol ar fap Rhanbartholi TB Cymru, cliciwch yma.

**Ydy'r mesurau hyn yn cynnwys clwstwr Pennal?**

O ran symud y tair uned ofodol i'r ITBAN, a'r gofyn i gynnal Profion Cyn Symud, nid yw'r newidiadau hyn yn effeithio ar glwstwr Pennal.

Ond mae'r dau fesur arall, sef cynnal profion ar fuchesi sy'n ffinio â buches sydd â'i Statws Heb TB Swyddogol wedi'i Ddileu (OTGFW) a'r ymweliadau "Cadw TB Allan" trwy'r rhaglen Cymorth TB **yn** effeithio ar fuchesi yn ardal Pennal.

**Sut olwg fydd ar y Map Rhanbartholi TB dros dro newydd ar 1 Tachwedd?**



**Sut bydd cyflwyno'r gofyn i gynnal Profion Cyn Symud a rhoi'r gorau'r i Brofion Ar ôl Symud yn amddiffyn yr ardal rhag TB o ardaloedd eraill?**

Mae'n edrych yn debyg bod TB Gwartheg wedi ymsefydlu yn yr ardaloedd yn Sir Ddinbych a Dyffryn Conwy y mae'r newidiadau hyn yn effeithio arnyn nhw. Un o'r ffyrdd y mae TB yn cael ei drosglwyddo yw trwy symudiadau gwartheg lleol. Mae angen cynnal Profion Cyn Symud felly i helpu i amddiffyn buchesi yn yr ardal hon ac yng ngweddill yr Ardal TB Ganolradd. Mae colli'r Profion ar ôl Symud yn golled gan y gwnaethon nhw wahaniaeth, gyda llai o wartheg yn cael eu symud o ardaloedd risg uwch (er bod cynnal profion ar ôl symud preifat ar wartheg sy'n ymuno â'ch buches o ddaliad risg uwch yn opsiwn o hyd). Rydyn ni eisoes wedi cyflwyno profion croen gwyliadwriaeth ychwanegol mewn buchesi sydd wedi cael prawf gwyliadwriaeth clir ar wartheg â thag o fuches arall ac sydd wedi cael adwaith positif i'r twbercwlin gwartheg. Bydd hynny'n helpu i leihau'r risg i raddau a ddaw gyda gwartheg sydd wedi'u prynu.

Cofiwch, **bydd dal angen cynnal prawf ar ôl symud ar unrhyw wartheg a ddaeth i'ch buches cyn 1 Tachwedd** o fewn 60-120 diwrnod ar ôl y symudiad os daethon nhw o ardal TB uwch.

**A fydd angen i fi siarad â fy milfeddyg preifat am Brofion Cyn Symud?**

Bydd, oni bai bod y symudiad yn un sydd wedi'i eithrio.

Dylech wneud hynny cyn 1 Tachwedd os ydych am symud gwartheg ar 1 Tachwedd neu'n fuan wedi hynny.

**A fydd Profion ar ôl Symud yn dal i gael eu cynnal yn yr ardaloedd y bydd y newidiadau hyn yn effeithio arnyn nhw?**

Ni fydd Profion ar ôl Symud yn ofyn cyfreithiol yn yr ardaloedd hyn mwyach. Ond, i fod yn hollol siŵr o statws TB y gwartheg rydych yn eu prynu neu'n dod â nhw adre, gallech ystyried cynnal Profion ar ôl Symud arnyn nhw. Os ydych chi am barhau i gynnal Profion ar ôl Symud, cysylltwch ag APHA cyn trefnu'r prawf â'ch milfeddyg preifat.

Cofiwch, **bydd dal angen cynnal prawf ar ôl symud ar unrhyw wartheg a ddaeth i'ch buches cyn 1 Tachwedd** o fewn 60-120 diwrnod ar ôl y symudiad os daethon nhw o ardal lle ceir mwy o achosion.

**Pam ydych chi wedi cyflwyno profion cyffiniol ychwanegol?**

Mae buchesi sy'n ffinio â daliad sydd wedi cael TB mewn mwy o berygl o gael TB. Mae defnyddio'r un mesurau gwyliadwriaeth ychwanegol yn yr ITBAN eisoes yn datgelu TB mewn buchesi cyffiniol yn gynt nag a fyddai'n bosibl trwy gynnal profion cyffiniol bob 12 mis. Trwy ddarganfod TB yn gynnar, mae cyfle i reoli'r clefyd rhag lledaenu o fewn y fuches ac yn yr ardal yn gynt.

**Pam trafferthu â'r ymweliad "Cadw TB Allan"**

Wrth ddelio â TB ac yn wir, ag unrhyw glefyd – *"gwella atal clwy' na'i wella"*. Ni allwn ddweud digon bod dod o dan gyfyngiadau TB oherwydd achos o TB yn gallu cael effeithiau tymor hir a thrwm ar eich buches ac ar eich busnes. Ond mae profiad pob ffermwr o TB gwartheg yn wahanol, gan gynnwys:


- *"Ces i TB unwaith am gyfnod byr gyda dim ond un anifail yn cael adwaith. Dwi ddim wedi cael unrhyw achos arall ers hynny."*
- *"Ces i achos ac roedd rhaid difa 40% o'r gwartheg ar ôl y prawf cyntaf".*
- *"Roedd fy muches yn cadw'n glir bob tro ond yna, dyma fi'n cael achos ym mhob prawf 6 mis wedi hynny."*
- *"Mae TB wedi bod ar fy muches nawr am 5 mlynedd ac rwy'n colli gwartheg ym mhob prawf."*

Mae'r senarios gwahanol hyn oll yn digwydd oherwydd natur gymhleth *M.bovis,* sef yr organeb sy'n achosi TB, a'r ffordd y mae gwartheg yn adweithio i'r haint. Ein cyngor ni i chi yw'ch bod yn cymryd pob gofal i ddiogelu'ch buches rhag TB. Trwy siarad â'ch milfeddyg, fe welwch pa gamau (mawr neu fach) y gallwch eu cymryd i gadw TB allan o'ch buches.

**Pam y dylwn ystyried derbyn ymweliad "Cadw TB Allan" gan Cymorth TB.**

Y Llywodraeth sy'n talu am yr ymweliadau hyn gan eich Milfeddyg Swyddogol lleol i drafod bioddiogelwch a chamau eraill y gallech eu cymryd i leihau'r perygl i TB heintio'ch buches. Gallai effeithiau TB ar eich buches fod yn dymor hir a thrwm. Felly dylech ystyried unrhyw fesurau allai rhwystro'r clefyd rhag taro'ch gwartheg.

**Mapiau Clwstwr Pennal**




Clwstwr Pennal